Cymdeithas Bob Owen

# Y Casglwr

Pob Peth Printiedig

Rhif 48 Tanysgrifiad £5 am 1993 yn ddyledus yn awr NADOLIG '91
i'r Trysorydd (sylwer ar hyn): Anne Till, 26 Maes Ceiro, Bow Street, Dyfed

## £5, a gwas newydd

**AIL HANNER trist i'r flwyddyn. Colli Cadeirydd Cymdeithas Bob Owen, a hen gyfaill Cymru a'r *Casglwr* a'r Golygydd. Ac yn greulon sydyn wedyn colli'r Athro gwerinol a'r cymwynaswr mawr a'r hen gyfaill arall, Bedwyr Lewis Jones. Ac i gwblhau'r triawd colledig Stephen J. Williams ysgolheigaidd a hawddgar.**

**Dyma ychwaneg o newydd nad yw'n dda os yn anorfod, oherwydd y codiadau cyson ym mhob peth, yn enwedig ym mhris y stampiau a chostau cynhyrchu bydd *Y Casglwr* yn £5 y flwyddyn o hyn allan — gan hyderu y medrir ei sefydlu ar y pris yna am dro byd.**

**Un newydd arall. Wedi golygu'r cylchgrawn yma o'i ddechreuad un mlynedd ar bymtheg yn ôl mae'r Golygydd presennol yn ymddeol er mwyn i Olygydd ifanc newydd Richard H. Lewis barhau i'w gynnal i'r ganrif nesaf. Diolch i bawb am eu hir gefnogaeth — a hir y parhao.**

## GUTO ROBERTS yn diogelu gwaith hen gymeriad

# Dechrau arlunio wedi'r hanner cant



*Diddorol yn hytrach na mawr oedd Robert Hughes fel arlunydd, a dwylo, fel y dengys y darlun uchod, yn achosi cryn drafferth iddo. Ond mae wynebau Hugh Jones, 98 oed a Jane Jones, Tŷ Uchaf Clynnog, cant oed, yn ddigamsyniol gadarn yn y darlun a dynnodd pan ddathlodd y ddau bymtheg mlynedd a thrigain o fywyd priodasol yn 1888. Ac er mai 'Y Berl Briodas' y galwyd y dathliad — 'Selebration' (sic) yn Saesneg ar gefn y llun — priodas ddiemwnt oedd hi. A gyda llaw gwnaeth Guto Roberts wasanaeth gwiw yn gosod lluniau Robert Hughes, a llawer person ac achlysur cyfoes, ar dâp fideo. A gyda llaw eto — ganwyd mab i Hugh a Janet Jones ar ddydd brwydr Waterloo, 1815, a dyna daid y llawfeddyg hawddgar Emyr Wyn Jones y medrwch chi ddarllen ei stori am yr orsedd ar dudalen 18.*

UN O'R rhaglenni 'Lloffa' gan y BBC yn 1969 a'm gyrrodd i am y tro cyntaf ar drywydd Robert Hughes, Uwchlaw'rffynnon, Llanaelhaearn.

Rhaglen deledu, fel y cofir, oedd 'Lloffa' a'r gofyn am bethau gweledol ar ei chyfer a barodd i'r cynhyrchydd fy anfon innau i chwilota am bethau felly. Cyfrol hunangofiannol Robert Hughes oedd y man cychwyn a chanfod yn honno fod y ffarmwr o Lanaelhaearn yn bregethwr, daearegwr a bardd.

'Roedd felly yn ŵr amryddawn dros ben a'r hanes cynnar am ei awydd i ddysgu Saesneg, nes peri iddo ganlyn y porthmyn i Brentwood ac aros i weithio mewn ffatri sebon yn Llundain, yn ei gwneud hi'n anodd i roi'r llyfr o'm llaw.

Yn ôl i Lanaelhaearn y daeth, fodd bynnag, ac ymroi trwy ddygn brofiad i gael deupen llinyn ynghyd fel ffarmwr — ond ffarmwr â'i fryd ar lyfrau. Darllen oedd y peth mawr yn ei fywyd a'r ychydig Saesneg a ddysgasai yn Llundain wedi ei alluogi i ddarllen cyfrol fel *Watts' Improvement of the Mind* yn gynnar iawn.

Datblygodd hefyd, yn ôl yr hunangofiant, yn ddaearegwr, a rhoes raff i'w awydd i farddoni hyd nes dod yn orau o saith yn Eisteddfod Llannerch-y-medd, 1835, am gywydd i 'Dinistr Sodom a Gomorrah'. Daeth y fedal arian hardd a enillodd bryd hynny yn un o'r pethau a ddangoswyd ar y rhaglen.

* * * *

COFNOD o rai o'i bregethau a'i deithiau pregethu a'i ofal bugeiliol dros eglwys y Babell yn Llanaelhaearn ynghyd â'i farddoniaeth ydi nodweddion amlycaf yr hunangofiant. Ond yn sydyn deuir o hyd i ffaith ddiddorol arall amdano, sef iddo fwrw ati pan oedd tua'r hanner cant oed i ymhel ag arlunio, gan gychwyn — yn ôl ei nai Tudwal Davies — 'trwy drochi ei fys mewn whiteyn, lampblack, a Spanish brown,' a gwneud llun ar bapur llwyd o'r hen flaenor Dafydd Pritchard y Gof, Llanaelhaearn.

Trodd yr ymhel hwnnw yn fwrw ati'n gyfnodol fel arlunydd gan y ceir cofnod gan ei nai iddo lunio oddeutu cant o bortreadau o bregethwyr canol y ganrif ddiwethaf. Bu'n portreadu hefyd y tirfeddiannwr, Yr Arglwydd Newborough a'i deulu, o Lynllifon; nifer o'i gyfeillion ac aelodau o'i deulu ef ei hun. Ceir ambell dirlun hefyd ymhlith ei weithiau, a deuthum o hyd i ddarlun bychan o ful, a chi yn gorwedd mewn preseb gerllaw. 'A dog in the manger', fel y gellid disgwyl, yw teitl y llun hwnnw.

O wybod iddo gael ei eni yn 1811 a marw fis Ebrill 1892 cawn iddo ddal ati i arlunio o leiaf hyd nes cyrraedd ei 77 oed. Y sicrwydd o hynny yw'r nodyn Saesneg a geir yn llawysgrif yr arlunydd ar gefn y darlun o Hugh a Jane Jones, Tŷ Uchaf, Clynnog, sef hen daid a hen nain Dr Emyr Wyn Jones.